

GWNEUD I DDIOGELU GYFRIF

PAPUR BRIFFIO

MAWRTH 2018

Mae'r papur briffio hwn yn deillio o uwchgynhadledd a gynhaliwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar 27 Mawrth 2018. Cafodd yr uwchgynhadledd ei chynllunio a'i hwyluso gan Simon Burch â chymorth Ruth Henke QC, Jan Pickles, Keith Towler, Arwel Hughes a Margaret Flynn. Yr ysgogiad ar gyfer yr uwchgynhadledd oedd un o brif ddyletswyddau'r Bwrdd Cenedlaethol fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sef "cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru" (A. 132 (2) (b)). Anfonwyd y rheoliadau'n ymwneud â *Swyddogaethau Byrddau Diogelu* at y cyfranogwyr cyn yr uwchgynhadledd. Hyd yn hyn, tair elfen sydd i amrywiaeth a chymhlethdod trefniadau diogelu, sef: gwybodaeth am gyfeirio achosion, nifer y staff sydd wedi'u hyfforddi a chydymffurfio â gweithdrefnau.

Diben yr uwchgynhadledd oedd adnabod ac ystyried ffynonellau gwybodaeth a fydd yn galluogi'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Cenedlaethol i ddod i gasgliadau mwy cadarn ynghylch effaith diogelu.

Yn ei gyflwyniad dywedodd Simon fod y digwyddiad yn gyfle i drafod syniadau am wybodaeth a mesurau a allai gynnig darlun mwy cyflawn o ddiogelu. Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn tynnu ynghyd y prif bartneriaid a rheolwyr o'r awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Ymddiriedolaeth GIG berthnasol, yr heddlu, y corff sy'n darparu gwasanaethau prawf, sefydliadau addysg (yn y Byrddau Diogelu Plant) ac eraill. Daeth oddeutu 40 o gyfranogwyr¹ i'r uwchgynhadledd a chawsant eu hannog i gymysgu a rhannu syniadau mewn grwpiau bach – a'u hysbysu ynghylch rheol Chatham House.

Gofynnodd Ruth a oedd y cyfranogwyr a oedd yn aelodau o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol wedi darllen *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*. Esboniodd fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Rheoliadau'n egluro'r sail resymegol dros fodolaeth y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac y dylent, ymysg swyddogaethau eraill, gasglu gwybodaeth er mwyn dangos yr hyn y

¹ O awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, y GIG, Prifysgol Caerdydd, sefydliadau hyfforddi ac ymgynghori, yr heddlu, pobl sy'n hyrwyddo diogelu plant ac oedolion, arolygiaethau, y sector gwirfoddol a'r sector preifat.

maent yn ei gyflawni. Rhaid i weithgarwch y Byrddau Rhanbarthol gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn cyrraedd nodau penodol ac yn cyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf wedi pennu mai dyma'r ffordd orau o gyflawni a monitro ymarfer diogelu yng Nghymru. Nid oedd Adroddiadau Blynyddol cyntaf y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn 2017 wedi bodloni gofynion y Ddeddf.

Bu i Margaret wahodd y cyfranogwyr i ymuno â'r Bwrdd Cenedlaethol mewn rôl sydd, o bryd i'w gilydd, yn ymdebygu i rôl gyrrwr sedd ôl. Cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yw'r gyrrwyr – mae ganddynt well golwg ar y ffordd a gweithgareddau'r ymarferwyr diogelu. Awgrymodd fod angen ystyried o ddifrif y dasg o adnabod mesurau credadwy ar gyfer y Byrddau Rhanbarthol, a gofynnodd a allai'r grwpiau trafod adnabod rhai agweddau ar ddiogelu sy'n cyfateb i arwyddion hanfodol gofal iechyd: tymheredd y corff, pŷls, pwysedd gwaed, cyfradd anadlu a phoen.

Roedd y trafodaethau cychwynnol yn adlewyrchu'r syndod ymhlith rhai cyfranogwyr **nad oes sylfaen dystiolaeth**: *Mae'r adroddiadau blynyddol mor wahanol // Am wn i, does neb wedi craffu ar waith y Byrddau o'r blaen // Beth yw diben gwybodaeth sy'n benodol i asiantaethau pan fo'r byrddau'n rhai amlasiantaeth? // Sut yr ydym yn elwa o'r arian sy'n cael ei fuddsoddi yn y Byrddau Rhanbarthol? // Beth yw allbynnau'r Byrddau Rhanbarthol? // Sut maent yn ychwanegu gwerth? // Ble mae'r dystiolaeth o weithgareddau lleol mewn partneriaeth sydd wedi atal neu leihau niwed? // Pam na wnawn ni bethau "unwaith dros Gymru" drwy osgoi dyblygu gwaith a datblygu safonau a rennir ar gyfer gwybodaeth ynghylch diogelu? // Pwy sy'n cael gweld gwybodaeth yn ymwneud â thueddiadau ynghylch achosion a gaiff eu cyfeirio o ran eu nifer, eu hamseroldeb a'u proffiliau? // A oes data cyfansymiol yn bodoli ar gyfer yr achosion a gaiff eu cyfeirio gan sefydliadau? // A geir Bwrdd Gwybodaeth sy'n ymdrin â'r hyn a gaiff ei gasglu'n rhan o'r broses o ddarparu gofal? // Byddai dadansoddwyr data'n archwilio ac yn triogli gwybodaeth. Ar y gorau, dylai Cadeiryddion fod yn cwrdd i drafod data a sefydlu patrwm ar gyfer gwneud hynny // Dylid cael rhaglen genedlaethol graidd ar gyfer archwilio, a ddarperir yn lleol // A oes data gwaelodlin yn bodoli ar gyfer arolygon a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod? // Beth sy'n digwydd rhwng cyfarfodydd? // Nid ydym yn gwybod pa gynnydd a wnaed o safbwynt diogelu // Pam nad yw'r Bwrdd Cenedlaethol yn dal y Byrddau Rhanbarthol i gyfrif?*²

Roedd sylwadau eraill yn cydnabod **pwysigrwydd atebolrwydd**: *Beth y mae Byrddau Rhanbarthol yn ei wella? // Pa mor dryloyw yw prosesau, penderfyniadau a blaenoriaethau'r Byrddau Rhanbarthol? // I bwy y caiff yr adroddiadau blynyddol eu hysgrifennu? // A ellir bod yn hyderus bod pob partner yn glir ynghylch rôl y Byrddau Diogelu Rhanbarthol? // I ba raddau y mae asiantaethau unigol yn cydymffurfio â'r Ddeddf? // A oes data ar gael ynghylch pa mor barod y mae sefydliadau o safbwynt bodloni dyletswyddau a sicrhau atebolrwydd?*

² Mae'r dyfyniadau yn y papur briffio hwn yn gyfieithiadau o sylwadau a nodwyd ar bapurau nodiadau bach y gwahoddwyd y cyfranogwyr i'w defnyddio a'u gadael ar eu byrddau, ynghyd â sylwadau a ddeilliodd o'r trafodaethau.

Awgrymwyd y byddai **defnyddio data sy'n bodoli'n barod** o ystod o ddisgyblaethau, sectorau a ffynonellau yn ffordd gredadwy o ddarparu gwybodaeth gyd-destunol werthfawr. Un cwestiwn sy'n gyfarwydd i aelodau un Bwrdd yw Beth yw eich "pynciau llosg"? // Gellir trosglwyddo'r cwestiwn hwn i ardaloedd y Byrddau Rhanbarthol: Ble mae'r "ardaloedd problemus"? Pam nad yw Byrddau'n defnyddio mapiau data o "ardaloedd problemus" yr heddlu ac "ardaloedd problemus" o ran tai? // A oes modd mapio tarddiad yr achosion a gaiff eu cyfeirio ar Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru? Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru? // Sut yr ydym yn gwybod y bydd gwybodaeth o bob ardal yn cael ei hadlewyrchu yn yr adroddiadau blynyddol? // A yw'n bosibl defnyddio data cymaradwy o fewn Ardal Bwrdd Rhanbarthol oherwydd bod yr awdurdodau lleol mor wahanol? // Byddai data cymaradwy'n galluogi deall amrywiaethau o fewn ac ar draws ardal yn ogystal ag ar draws Byrddau Rhanbarthol // casglu a rhannu adroddiadau Crwneriaid dan Reol 43, sy'n egluro'r hyn a fyddai'n atal marwolaethau mewn amgylchiadau tebyg // ymyriadau diogelu niferus yn ymwneud ag unigolion, teuluoedd, cartrefi preswyl a wardiau // y cartrefi sy'n destun "gweithdrefnau sy'n dwysáu" // Ble mae'r prif ganfyddiadau o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion? // Beth yr ydym yn ei wybod am y cyfraddau o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion fesul poblogaeth? // A geir unrhyw ddata ynghylch cydymffurfio â gofynion o ran hyfforddiant? // Mae hyd ymchwiliadau'r heddlu'n berthnasol oherwydd mae'n effeithio ar ddiogelu // Data hyfforddiant staff // Swyddi gwag a throsiant o ran gweithwyr cymdeithasol, a nifer y gweithwyr asiantaeth // Pam nad oes dull o olrhain achosion o ddechrau'r ymyriadau diogelu i'r diwedd – efallai gan ddefnyddio holiadur "cryfderau a phroblemau"? // I ba gyfeiriad y mae'r "daith ddiogelu" yn mynd o safbwynt y defnyddiwr? // Hwyrach bod cysondeb presenoldeb partneriaid yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rhanbarthol yn adlewyrchu lefel eu cydweithrediad // A yw partneriaid prysur yn defnyddio Skype? // A oes unrhyw un yn gofyn i'r sawl sy'n cyfeirio achosion am eu profiad? A aethpwyd i'r afael â'u pryderon yn effeithiol? // Beth yr ydym yn ei wybod am ansawdd a lefelau hyfforddiant diogelu? A yw'n sail i raglenni dysgu a datblygu cenedlaethol? // A yw pobl sydd â phrofiad o ddiogelu'n ymwneud â hyfforddiant diogelu? // Beth yr ydym wedi'i ddysgu, a sut yr ydym wedi defnyddio'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu – a geir materion thematig a materion sy'n dod i'r amlwg? // Ble mae'r ystadegau o ran hyfforddiant? // Ble mae'r canlyniadau llesiant? // Oni ddylem fod yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag ar niferoedd? // Fframwaith Cenedlaethol Canlyniadau Diogelu? // Sut y mae'r hyn a gaiff ei ddysgu o adolygiadau'n cyfrannu at hyfforddiant ac arferion? // A yw'r wybodaeth am ddiogelu'n cyfateb i'r hyn sydd yn y newyddion? // Mae dangosfyrddau – sy'n ddangosyddion sydyn – yn gysylltiedig â lefelau gwahanol o wybodaeth.

Ystyriwyd y gwendid o ran **adborth**. Awgrymwyd y dylid bod yn glir ynghylch ymyriadau atal ac ymarfer. Dylai ymyriadau atal gydweddu â phrofiadau'r holl gymunedau gan ddweud wrthynt am y newidiadau sy'n deillio o'u profiadau a'u syniadau. O ran ymarfer, dylai'r sawl sy'n cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant/Oedolion sicrhau bod llais a/neu brofiadau'r plentyn/oedolyn yn ganolog i'r adolygiadau. Yn yr un

modd, rhaid i ni wrando ar y staff sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl. A fydden nhw am i'w perthnasau agos gael eu cyfeirio at eu gwasanaeth? // [Os ydynt yn barod i gynnwys eu henwau] Os rhoddwyd sgôr isel i wasanaeth dylid gofyn beth yw'r rheswm dros hynny// Rhaid i ni ddefnyddio dulliau gwahanol gyda defnyddwyr gwahanol // Beth am is-grwpiau'r Byrddau Rhanbarthol? Onid nhw yw'r gangen weithredol?

Defnyddio mesurau procsi megis achosion o dderbyn (ac aildderbyn) unigolyn i'r ysbyty pan geir amheuaeth o esgeulustod // llwyddo i erlyn pobl sydd wedi niweidio eraill // dynladdiadau domestig // y defnydd o ymatal a neilltuo mewn gwasanaethau i bobl ag anabledau dysgu a phobl â phroblemau iechyd meddwl // nifer y plant, y bobl ifanc a'r oedolion a gaiff eu rhoi mewn lleoliadau y tu allan i Gymru // nifer y lleoliadau y mae'r plant, y bobl ifanc a'r oedolion sy'n destun ymyriadau diogelu yn eu cael: 1-3; 4-6; 6-12; 12+ // lefelau presenoldeb yn yr ysgolion ac achosion o eithrio pobl ifanc mewn sydd gofal/sy'n hysbys i'r tîm diogelu - ac yn y tymor hwy - canlyniadau arholiadau, y sawl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant; y sawl sy'n llwyddo i gadw eu tenantiaeth gyntaf am 12 mis // Prif ganfyddiadau adroddiadau'r arolygiaethau // cartrefi preswyl sy'n cau ar ôl arolygon anffafriol // ymdrechion aflwyddiannus i ddod o hyd i lety diogel i blant a phobl ifanc // cyfweliadau dienw â rhieni maeth - mae ganddynt afael sicr ar yr hyn sydd ar goll o ran y cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc. Maent yn eiriolwyr sy'n gallu ychwanegu gwerth // Mae dyfarniadau llys yn ddata o bwys // Iechyd yr asiantaeth e.e. defnyddio'r Sgôr Hyrwyddwr Net/ cyfweliadau wrth ymadael / arolygon Survey Monkey - unrhyw beth sy'n darparu adborth defnyddiol // Beth am ymweliadau gofal cartref y dylid bod wedi'u cynnal? Nifer y galwadau sydd wedi methu // Amseroedd ymateb ymarferwyr diogelu a'r heddlu? // A yw'r Byrddau Rhanbarthol yn cydweithio ar unrhyw un o'r meysydd hyn? // Oni allai'r Byrddau Rhanbarthol gynnal rhai archwiliadau gyda'i gilydd? // A geir dull sylfaenol o fesur llesiant y gellir ei ddefnyddio? // Pwy sy'n siarad â'r bobl sy'n defnyddio caffis dementia? // Gwerthuso // Efallai, pan fo'n ymarferol, y dylid gofyn i bobl "Am ba hyd y buoch chi'n byw gyda'r gamdriniaeth/esgeulustod cyn i chi gael help?"

Cafodd y cyfranogwyr eu gwahodd gan Keith i feddwl am y wybodaeth y mae ei hangen **er mwyn i'r Byrddau fod yn effeithiol**. Mae gwybodaeth ar gael ar sawl ffurf wahanol – o adroddiadau personol pobl am yr hyn sydd wedi digwydd iddynt i ddisgrifiadau o brosesau, data ystadegol a "chanlyniadau".

Ategu lleisiau pobl/gwybodaeth o gyfweliadau â gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau yw'r man cychwyn: Sut y mae'r Byrddau Rhanbarthol yn ymgysylltu â phobl? // O gofio'r ffocws hanesyddol ar blant, beth am oedolion sydd mewn perygl o niwed? // Beth am i ni ofyn "Beth sy'n bwysig i chi?" // "Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n ddiogel?" // Faint o bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau? // Ym mhle y mae'r enghreifftiau o leisiau a/neu brofiadau pobl yn cael eu hadlewyrchu mewn ymyriadau amlasiantaeth? // Arolygon o fodlonrwydd defnyddwyr i gael adborth ansoddol // A ydym yn glir ynghylch sut yr ydym yn

casglu “lleisiau” (ansoddol) a sut yr ydym yn defnyddio gwybodaeth o’r fath i siapio/newid pethau mewn modd ystyrlon ac mewn modd sy’n golygu eu bod yn teimlo’r newid? // Faint o lais sy’n amlwg? // A yw pob un o’r Byrddau Rhanbarthol yn cwrdd â Byrddau Diogelu Iau?

Roedd y cwestiwn **Beth y mae’r cyhoedd yn ei wybod am ddiogelu yng Nghymru?** wedi esgor ar sylwadau megis y canlynol: Nid yw’r iaith a ddefnyddir ym maes diogelu yn helpu’r sefyllfa // Sut y mae’r Byrddau Rhanbarthol yn ymgysylltu â’r cyhoedd yn unigol ac ar y cyd? // A yw Byrddau Rhanbarthol yn rhannu gwybodaeth â’r cyhoedd, ac os felly, sut? // A yw’r cyhoedd yn gwybod, hyd yn oed, am fodolaeth Byrddau Rhanbarthol o ran eu rôl, eu swyddogaethau, eu penderfyniadau a’u ffocws? // Mae “Ffactorau Gwarchod y Gymuned” yn cynnwys ymwybyddiaeth a/neu wybodaeth ynghylch diogelu plant ac oedolion // A yw’r Byrddau Rhanbarthol yn archwilio’r wybodaeth a ddarperir i’r cyhoedd? // A yw’r Byrddau Rhanbarthol yn cynnal archwiliadau thematig? // Pe baem ni fel cymuned yn glir, byddai ein neges yn glir // Dylem ddweud wrth bobl beth yr ydym yn ei wneud a bod yn falch o’r hyn yr ydym yn ei wneud // Strategaeth gyfathrebu genedlaethol ar gyfer diogelu? // Mae angen rhaglen genedlaethol o archwiliadau diogelu a gyflawnir yn rhanbarthol ac yn genedlaethol // A yw’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol?

Gofynnodd Ruth i’r cyfranogwyr a oedd yn aelodau o Fyrddau Rhanbarthol pam nad oeddent yn defnyddio Twitter. Soniodd am “The Transparency Project”³ sy’n cywiro, yn esbonio neu’n cynnig sylwadau ar adroddiadau gan y cyfryngau ynghylch dyfarniadau a gyhoeddwyd mewn perthynas ag achosion llys teulu, yn enwedig y rhai sy’n cael eu gorliwio gan y cyfryngau. Efallai bod achos dros gael adnodd tebyg ym maes diogelu.

Mae paragraff 126 y Canllawiau ynghylch Rhan 7 yn nodi fel a ganlyn: “A Safeguarding Board should ensure the effectiveness of the measures taken individually or as part of their shared responsibility as a Safeguarding Board partner...This enables a Board to gather data from its Board partners and other bodies about the nature and extent of need, abuse and harm with which they are working...It requires a system for agencies reporting to the Board on the measures they have in place and how they are working, and to be prepared to be challenged...”

Wrth ystyried herio aelodau’r Byrddau Rhanbarthol mae dau linyr yn dod i’r amlwg:

- (i) Pam y mae’r baich o herio mor fawr?// Er enghraifft, nid yw lechyd Cyhoeddus Cymru yn barod i wneud unrhyw gyfraniad ariannol
- (ii) “Looking at any of our major institutions...homogeneity suddenly looks like a weakness and a risk. Diversity, in this context, isn’t a form of political correctness but insurance against the internally generated blindness that leaves these institutions exposed and out of touch” (tud. 300).⁴

³ www.transparencyproject.org.uk/ (cyrchwyd ar 30 Mawrth 2018)

⁴ Hefferman, M. (2011) *Wilful Blindness: Why we ignore the obvious at our peril* Llundain: Simon a Shuster UK

Gallai **cofrestr heriau** neu **log heriau** wrthsefyll y gwrthwynebiad i her: Yn ystod y 12 mis diwethaf dyma'r heriau a fynegwyd gan aelodau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Arweiniodd pwnc X at ddadleuon, a dyma a wnaed i'w datrys // A oes cyfle i ddarparu enghreifftiau o achosion sy'n amlygu effeithiolrwydd gwaith amlasiantaeth? // Mae cwynion am arferion a threfniadau diogelu yn cael eu cyflwyno i'r ombwdsmon ac i'r Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Mae'r rhain yn gyfleoedd dysgu sylweddol i'r Byrddau Rhanbarthol // Beth am bartneriaid her/Cadeiryddion Byrddau Rhanbarthol sy'n cyfnewid lle â'i gilydd? // Dylai hynny gael ei adlewyrchu mewn Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, nad ydynt yn dwyn sefydliadau i gyfrif ddigon // Mae rôl megis y "Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol" sy'n gysylltiedig â Chefnogi Pobl yn berthnasol, h.y. unigolion sydd â'r gallu i gasglu, cydgrynhoi a chyflwyno gwybodaeth ariannol a strategol a fyddai'n gwella pethau. A fyddai modd ariannu'r rôl hon? // Nid oes dim her a dadansoddi ystyrion // Ble mae'r gwahanol heriau rhwng diogelu plant ac oedolion?//

Cafwyd y rhybudd canlynol gan un cyfranogwr: Ni waeth pa fesurau a gaiff eu mabwysiadu, ceir perygl go iawn y byddant yn sgiwio'r dasg o ddiogelu plant ac oedolion. Bydd rhywun yn eu ffidlo!

I ba raddau y mae'r Cyfarfodydd Strategaeth yn rhai amlasiantaeth? O wirio blaenddalen cofnodion Cyfarfodydd Strategaeth i weld y manylion presenoldeb, hwyrach y gwelir nad yw'r rhain yn gyfarfodydd amlasiantaeth mewn gwirionedd. Gallai hynny arwain at y cwestiwn canlynol: beth y mae'r Bwrdd Rhanbarthol yn ei wneud i wella dull amlasiantaeth o weithio yn ystod o dasg hollbwysig hon o ddiogelu? // A yw pobl yn mynychu trwy gyfrwng Skype?

Gwahoddodd Jan y cyfranogwyr i osod eu syniadau yn nhrefn pwysigrwydd a'u cyflwyno i'r holl gyfranogwyr. Esboniodd ei bod yn werth cyflwyno safbwyntiau newydd, dadleuon ac, o bryd i'w gilydd, gwrthdaro wrth geisio mynd i'r afael â phroblemau sy'n dueddol o aros yn y pentwr o bethau sy'n "rhy anodd" i'w gwneud.

Cynigwyd y gallai'r **arfarniad 360 gradd**⁵ archwilio i ba raddau y mae cydberthnasau yn y Byrddau Diogelu Rhanbarthol – a'r Bwrdd Cenedlaethol – yn iach, yn ogystal â sut y caiff y rhain eu gweld gan bobl eraill.

Dylid dechrau gyda set gyfyngedig o fesurau yn gyntaf // Ceir hunanasesiad yn erbyn cyfraniad gwirioneddol y Byrddau Rhanbarthol // Beth am y posibilrwydd o flino ar arolygon? // Mae sefydliad iach yn galluogi ei weithwyr i ddatgelu eu bod yn cael eu niweidio // Mae'n anodd beirniadu os nad oed perthynas yn bodoli // Mae'n gyfnod cythryblus ar rai o'r sefydliadau sy'n aelodau // Weithiau caiff aelodaeth ei dirprwyo i swyddogion ar lefel is ac

⁵ Rhaglenni arfarnu perfformiad, e.e.

www.surveymonkey.co.uk/mp/360-degree-employee-evaluation-survey-template/ (cyrchwyd ar 30 Mawrth 2018)

mae risgiau'n perthyn i hynny // Mae angen diwylliant o onestrwydd ac mae risgiau'n perthyn i hynny // Gofynnwch i aelodau newydd o'r Bwrdd ynghylch eu canfyddiad o'r Bwrdd.

Yn olaf, ystyriodd y cyfranogwyr pa rai o'r syniadau yr oeddent wedi clywed amdanynt a'u trafod a oedd yn ymddangos yn addawol. Er bod y syniadau dilynol wedi'u nodi yn y papur hwn, awgrymwyd bod y syniadau canlynol yn ymddangos yn addawol: gwrandu'n astud ar bobl sydd wedi cael niwed; triongli gwybodaeth; cael gwybodaeth sy'n deillio o ddata'r gweithlu, gan gynnwys staff sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi cael niwed; a dadansoddi dyfarniadau llys.

Daeth Margaret â'r uwchgynhadledd i ben drwy ddiolch i'r holl gyfranogwyr am eu hamser ac am eu cyfraniadau gwerthfawr a'u safbwyntiau ffres.

Felly, beth nesa'?

Roedd yr uwchgynhadledd yn ffynhonnell ddysgu bwysig. Arweiniodd at lawer o syniadau ynghylch sut y gellir asesu digonolrwydd trefniadau diogelu Cymru, a rhagwelir y bydd y syniadau hynny'n dylanwadu ar ystyriaethau ynghylch digonolrwydd yn y tymor hir. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn awgrymu y gallai'r syniadau canlynol fod yn sail i drafodaethau yn y Byrddau Rhanbarthol a rhwng y Cadeiryddion a Llywodraeth Cymru:

1. Mesurau ynghylch effeithiolrwydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

- Yr achlysuron a gofnodir yn y "Log Heriau" pan fo'r Cadeirydd/aelodau'r Bwrdd wedi herio partner – a chanlyniad yr her
- Arfarniad 360 gradd
- Enghreifftiau o gamau i wella a gymerwyd gan y Bwrdd Rhanbarthol a oedd yn deillio o flaenoriaethau neu faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt
- Gwybodaeth a grynhowyd ynghylch "ardaloedd problemus"; risgiau; cyfraddau salwch staff diogelu; cyfraddau salwch asiantaethau; swyddi gwag a'r defnydd o staff asiantaeth
- Cynnydd o ran amcanion 2017-18
- Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r is-grwpiau – safle'r sawl sy'n mynychu yn eu sefydliad, sefydlogrwydd o ran y sawl sy'n mynychu a chyfraniad y sawl sy'n mynychu

2. Mesurau ynghylch arweinyddiaeth a diogelu

- Digwyddiadau a gynhelir i wella gwybodaeth, sgiliau ac ymyriadau diogelu newydd
- Dysgu a rhannu'r hyn a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Ymarfer Oedolion

- Tystiolaeth o broffil rhanbarthol a chenedlaethol y Bwrdd Rhanbarthol drwy gyswllt â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cenedlaethol, er enghraifft
- 3. Mesurau ynghylch perfformiad a thueddiadau ym maes diogelu**
- Data o arolygon a gynhelir ymhlith staff rheng-flaen a gofalwyr maeth
 - Straeon sy'n rhoi llwyfan i leisiau a phrofiadau go iawn plant ac oedolion sydd mewn perygl
 - [Mesurau procsi] yr asiantaethau sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd strategaeth; unigolion/teuluoedd/gwasanaethau sy'n rhan o achosion diogelu a gaiff eu cyfeirio dro ar ôl tro; nifer y plant a'r oedolion a gaiff eu rhoi mewn lleoliadau y tu allan i'r sir; recriwtio a chadw staff. Ffigurau trosiant staff.
 - Negeseuon allweddol sy'n deillio o adroddiadau arolygu
- 4. Data ac ymchwil cyd-destunol**
- Dadansoddiadau cymharol yng Nghymru a'r DU
 - Gwerthusiadau
- 5. Gwybodaeth arall**
- Adroddiadau'r cyfryngau ynghylch materion sy'n ymwneud â diogelu yn ardaloedd y Byrddau Rhanbarthol
 - Modelau o'r anrhydeddau a gwobrau eraill

31 Mawrth 2018